O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2019 Rhif 1195 (Cy. 212)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Gorchymyn Cefnffordd yr A483 (Cyffordd 5 (Cyfnewidfa Ffordd yr Wyddgrug) i Gyffordd 6 (Cyfnewidfa Gresffordd), Bwrdeistref Sirol Wrecsam) (Terfyn Cyflymder 50 mya Dros Dro) 2018 (Dirymu) 2019

Gwnaed	*14 Awst 2019*
Yn dod i rym	*16 Awst 2019*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer Cefnffordd yr A483, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 14(1) a 124 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**), a pharagraff 27 o Atodlen 9 iddi, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Enwi a Chychwyn

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Gorchymyn Cefnffordd yr A483 (Cyffordd 5 (Cyfnewidfa Ffordd yr Wyddgrug) i Gyffordd 6 (Cyfnewidfa Gresffordd), Bwrdeistref Sirol Wrecsam) (Terfyn Cyflymder 50 mya Dros Dro) 2018 (Dirymu) 2019 a daw i rym ar 16 Awst 2019.

Dirymu

2. Mae Gorchymyn Cefnffordd yr A483 (Cyffordd 5 (Cyfnewidfa Ffordd yr Wyddgrug) i Gyffordd 6 (Cyfnewidfa Gresffordd), Bwrdeistref Sirol Wrecsam)

(**1**) 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26) ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32), a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(Terfyn Cyflymder 50 mya Dros Dro) 2018(**2**) wedi ei ddirymu.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 14 Awst 2019

Richard Morgan
Pennaeth Cynllunio, Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

(**2**) O.S. 2018/750 (Cy. 147)